Annwyl Bennaeth A fyddech cystal â hyrwyddo a rhannu'r neges isod gyda'ch holl ddysgwyr a rhieni/gofalwyr os gwelwch yn dda. Mae uned brofi symudol Covid yn: **Ysgol Nant y Groes, Greenfield Road, Bae Colwyn LL29 8ET** **ar gael rhwng 8am a 5pm tan ddydd Gwener 16eg o Orffennaf 2021**. Rydym yn annog pob rhiant/gofalwr i ddefnyddio'r cyfleuster hwn os oes unrhyw un yn eich cartref wedi dioddef UNRHYW un o'r symptomau a restrir isod yn ystod y 10 diwrnod diwethaf: • **Tymheredd uchel (37.8 C neu uwch)** • **Peswch** • **Newid, neu golli ymdeimlad o flas neu arogl** • Teimlo'n anarferol o flinedig • Poenau cyffredinol tebyg i 'ffliw' (myalgia) • Dolur gwddw a/neu grygni • Prinder anadl neu wichian • Cur pen parhaus • Trwyn yn rhedeg neu wedi'i rwystro • Teimlo'n sal (cyfogi), chwydu neu ddolur rhydd Bydd hyn yn helpu i leihau lledaeniad heintiau yn y gymuned. Rydym yn cymell eich cefnogaeth barhaus er mwyn helpu i reoli lledaeniad y firws trwy ddilyn y cyngor yn y llythyr hwn. Cofion	Dear Headteacher, Can we please ask you to promote and share the below message with all your learners and parents/carers. There is a Covid mobile testing unit at: **Ysgol Nant y Groes, Greenfield Road, Bae Colwyn LL29 8ET** **available between 8am and 5pm until Friday 16th July 2021**. We are urging all parents/carers to make use of this facility if anyone in your household have suffered ANY symptoms in the last 10 days listed below: • **Fever (37.8 C or above)** • **Cough** • **Change, or loss of, sense of taste or smell** • Feeling unusually tired • General 'flu-like aches and pains (myalgia) • Sore throat and / or hoarseness • Shortness of breath or wheezing • Persistent headache • Runny or blocked nose • Feeling sick (nausea), vomiting or diarrhoea This will help reduce the spread of infection in the community. We urge for your support to continue to help to control the spread of the virus by following advice which is issued. Regards